O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 108

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*23 Mehefin 2026*
Yn dod i rym	*31 Gorffennaf 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 108

The Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*23 June 2026*
Coming into force	*31 July 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 108

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) y pŵer i ddynodi cyrsiau o dan reoliad 8 o Reoliadau 2018, fel y caiff Gweinidogion Cymru bennu bod cwrs o'r fath i'w drin fel pe bai'n cael ei ddarparu gan ddarparwr arferol at ddibenion cyfrifo uchafswm y benthyciad at ffioedd dysgu o dan reoliad 40 o Reoliadau 2018, a

(b) rheoliad 40 o Reoliadau 2018, ac yn mewnosod Atodlen newydd 2A ynddynt, i sicrhau bod gan fyfyrwyr ar gyrsiau sy'n parhau a restrir yn yr Atodlen honno hawlogaeth i gael y benthyciad at ffioedd sy'n gymwys i ddarparwr arferol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Ariannu a Strategaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2026 Rhif 108

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*23 Mehefin 2026*
Yn dod i rym	*31 Gorffennaf 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a) a (2)(c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Gorffennaf 2026.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

3. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**3**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 4 i 6.

Diwygio rheoliad 8

4. Ar ôl rheoliad 8(1) (dynodi cyrsiau eraill) mewnosoder—

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2)(a). Gweler adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44(2) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2025/981 (Cy. 173). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"(1A) Wrth bennu cwrs o dan baragraff (1), caiff Gweinidogion Cymru bennu bod y cwrs i'w drin fel pe bai'n cael ei ddarparu gan ddarparwr arferol at ddibenion rheoliad 40(2)(c)(i)."

Diwygio rheoliad 40

5. Yn rheoliad 40 (swm benthyciad at ffioedd dysgu)—

(a) ym mharagraff (2), ar y dechrau mewnosoder "Yn ddarostyngedig i baragraff (4),";

(b) yn lle paragraff (2)(c)(i) rhodder—

"(i) ystyr "darparwr arferol" yw darparwr—

(aa) sy'n dod o fewn Amod 4 o reoliad 6(1),

(bb) a bennir yng ngholofn 2 o Dabl 14A yn Atodlen 1A, i'r graddau y mae'n darparu'r cwrs a ddisgrifir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 3, neu

(cc) sy'n cael ei drin felly yn rhinwedd dynodiad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 8;";

(c) ym mharagraff (2)(c)(ii), ar y diwedd mewnosoder ", pan na fo'r sefydliad yn cael ei drin fel darparwr arferol o fewn ystyr paragraff (i) o dan delerau'r dynodiad hwnnw";

(d) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Cyfrifir uchafswm y benthyciad y mae gan fyfyriwr a ddiogelir hawlogaeth i'w gael fel pe bai ei gwrs yn cael ei ddarparu gan ddarparwr arferol o fewn ystyr paragraff (2)(c)(i).

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "myfyriwr a ddiogelir" yw myfyriwr sy'n ymgymryd â chwrs sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn Atodlen 2A."

Mewnosod Atodlen newydd 2A

6. Ar ôl Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys) mewnosoder—

"ATODLEN 2A

Rheoliad 40(5)

Cyrsiau perthnasol ar gyfer myfyrwyr a ddiogelir

1. Cwrs a ddisgrifir yng ngholofn 3 o Dabl 14B—

(a) a ddarperir gan ddarparwr y cwrs a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2,

(b) sy'n arwain at gymhwyster a ddyfernir gan y corff a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 1, ac

(c) sy'n dechrau cyn 1 Awst 2026.

Tabl 14B

Colofn 1	*Colofn 2*	*Colofn 3*
Y corff dyfarnu	*Darparwr y cwrs*	*Disgrifiad o'r cwrs*
Anglia Ruskin University	ARU London	Cyllid a Chyfrifeg - BSc (Anrh)
		Cyllid a Chyfrifeg gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
		Y Gyfraith - LLB (Anrh)
Arts University Plymouth	Victoria College of Arts and Design	Busnes a Rheoli i Bobl Greadigol (Manceinion) - Tystysgrif Addysg Uwch
Bath Spa University	Circomedia	Syrcas Gyfoes gyda Theatr Gorfforol - BA (Anrh)
	Elizabeth School of London Limited	Busnes a Rheoli (Birmingham) - BA (Anrh)
		Busnes a Rheoli gyda Blwyddyn Sylfaen (Manceinion) - BA (Anrh)
	The Brighton Academy	Theatr Gerdd - BA (Anrh)
		Dawns Broffesiynol - BA (Anrh)
	William College	Busnes a Rheoli (Y Gyfraith) gyda Blwyddyn Sylfaen (Stratford) - BA (Anrh)
BIMM University Limited	The Notting Hill Academy of Music Limited	Ysgrifennu Caneuon Masnachol - Tystysgrif Addysg Uwch
Birmingham Newman University	CECOS College London	Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Blwyddyn Sylfaen (Birmingham) - BSc (Anrh)
Buckinghamshire New University	Dancebox Studios & Theatre Works Limited	Dawns a Pherfformio Masnachol Proffesiynol - BA (Anrh)
	RHCast Limited	Theatr Gerdd - BA (Anrh)
Canterbury Christ Church University	Elizabeth School of London Limited	Cyfrifeg a Chyllid gyda Blwyddyn Sylfaen (Birmingham) - BSc (Anrh)
		Cyfrifeg a Chyllid gyda Blwyddyn Sylfaen (Manceinion) - BSc (Anrh)
		Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen (Birmingham) - BSc (Anrh)
		Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen (Manceinion) - BSc (Anrh)

Colofn 1	*Colofn 2*	*Colofn 3*
Y corff dyfarnu	*Darparwr y cwrs*	*Disgrifiad o'r cwrs*
	London School of Commerce	Astudiaethau Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen (Llundain) - Tystysgrif Addysg Uwch
		Astudiaethau Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen (Llundain) - BA (Anrh)
	UK Management College	Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
De Montfort University	National Design Academy	Dylunio Mewnol - BA (Anrh)
	National Motorsport Academy	Peirianneg Chwaraeon Moduro - BSc (Anrh)
	Performance Preparation Academy	Perfformio mewn Theatr Gerdd - BA (Anrh)
		Perfformio mewn Theatr Gerdd gyda Blwyddyn Sylfaen - BA (Anrh)
Kingston University	Coleg Caerdydd a'r Fro	Peirianneg Awyrennau - BEng (Anrh)
Leeds Trinity University	LD Training Services Limited	Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen ym maes Busnes (Llundain) - BA (Anrh)
Lincoln Bishop University	The Language Gallery	Rheoli Busnes - Tystysgrif Addysg Uwch
London Metropolitan University	QA Higher Education Birmingham	Rheoli Busnes - BA (Anrh)
		Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen - BA (Anrh)
		Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
	QA Higher Education London	Rheoli Busnes - Tystysgrif Addysg Uwch
		Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen - BA (Anrh)

Colofn 1	*Colofn 2*	*Colofn 3*
Y corff dyfarnu	*Darparwr y cwrs*	*Disgrifiad o'r cwrs*
	QA Higher Education Manchester	Rheoli Busnes - BA (Anrh)
		Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen - BA (Anrh)
		Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
New College Durham	CECOS College London	Busnes a Rheoli - FdA
Newcastle College Group	Elizabeth School of London Limited	Rheoli Busnes - Tystysgrif Addysg Uwch
		Cyfrifiadura - Tystysgrif Addysg Uwch
Plymouth Marjon University	Bristol School of Acting	Actio a Theatr Ddyfeisiedig - BA (Anrh)
		Actio ar gyfer Ffilmiau, Teledu a'r Cyfryngau Newydd - BA (Anrh)
		Actio ar gyfer y Sgrin - BA (Anrh)
		Actio ar gyfer y Llwyfan a'r Sgrin - BA (Anrh)
		Celfyddydau Theatr Dechnegol - BA (Anrh)
	City Of London College (Bristol Campus)	Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
	Screenology	Gwneud Ffilmiau Creadigol - BA (Anrh)
Southampton Solent University	QA Higher Education Birmingham	Cyfrifiadureg - BSc (Anrh)
		Cyfrifiadureg gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
		Seiberddiogelwch gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
	QA Higher Education Manchester	Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)

Colofn 1	*Colofn 2*	*Colofn 3*
Y corff dyfarnu	*Darparwr y cwrs*	*Disgrifiad o'r cwrs*
		Cyfrifiadureg gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
		Seiberddiogelwch gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)
University for the Creative Arts	London College of Contemporary Arts	Rheoli Busnes Cymhwysol - FdA
		Rheoli Busnes ac Entrepreneuriaeth - BA (Anrh)
		Ffasiwn - BA (Anrh)
		Rheoli ac Arwain ym maes Lletygarwch - BA (Anrh)
	London College of Contemporary Music	Cerddoriaeth Fasnachol - Tystysgrif Addysg Uwch
		Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth - BMus (Anrh)
University of Chichester	Italia Conti Arts Centre Limited	Actio (Theatr Gerdd) - BA (Anrh)
University of East London	University Campus of Football Business Limited	Hyfforddi a Rheoli Pêl-droed gyda Blwyddyn Sylfaen (Manceinion) - BA (Anrh)
		Hyfforddi a Datblygu Talent Pêl-droed (Wembley) - BA (Anrh)
		Busnes Pêl-droed Rhyngwladol (Wembley) - BA (Anrh)
		Busnes a Hyfforddi Chwaraeon (Manceinion) - BA (Anrh)
		Busnes a Hyfforddi Chwaraeon gyda Blwyddyn Sylfaen (Manceinion) - BA (Anrh)
		Busnes Chwaraeon a Chyfraith Chwaraeon (Manceinion) - BA (Anrh)
University of Greater Manchester	UoB Manchester	Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)

Colofn 1 *Y corff dyfarnu*	*Colofn 2* *Darparwr y cwrs*	*Colofn 3* *Disgrifiad o'r cwrs*
University of Lancashire	Spirit Studios	Peirianneg Sain Fyw a Chynhyrchu Cerddoriaeth - BSc (Anrh)
University of Northampton	UONL	Seicoleg gyda Blwyddyn Sylfaen Integredig - BSc (Anrh)
University of Suffolk	London School of Commerce	Astudiaethau Busnes (Manceinion) - Tystysgrif Addysg Uwch
		Astudiaethau Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen (Manceinion) - Tystysgrif Addysg Uwch
		Astudiaethau Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen (Manceinion) - BA (Anrh)
University of West London	Coleg Caerdydd a'r Fro	Seiberddiogelwch - BSc (Anrh)
		E-chwaraeon a'r Diwydiannau Creadigol - FdA
		Arbenigedd Chwarae ym maes Gofal Iechyd - FdA
		Perfformio a Recordio Cerddoriaeth - Diploma Addysg Uwch
		Perfformio a Recordio (Atodol) - BMus (Anrh)
	Drama Studio London	Sylfaen mewn Perfformio - Tystysgrif Addysg Uwch
	The Academy of Music & Sound	Cerddoriaeth a Sain (Atodol) - BA (Anrh)
University of Wolverhampton	City College Coventry	Rheoli Marchnata Digidol gyda Blwyddyn Sylfaen - BA (Anrh)
	School of Coding	Rheoli Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen (Birmingham) - BA (Anrh)
		Cyfrifiadura a Thechnoleg Gwybodaeth gyda Blwyddyn Sylfaen (Birmingham) - BSc (Anrh)
	UK Management College	Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Blwyddyn Sylfaen - BSc (Anrh)"

Cefin Campbell
Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac Addysg Drydyddol, o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
23 Mehefin 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 108

EDUCATION, WALES

The Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 ("the 2018 Regulations").

The 2018 Regulations provide for financial support for eligible students taking designated courses of higher education which begin on or after 1 August 2018.

These Regulations amend—

(a) the power to designate courses under regulation 8 of the 2018 Regulations, so that the Welsh Ministers may specify that such a course is to be treated as being provided by an ordinary provider for the purposes of calculating the maximum amount of tuition fee loan under regulation 40 of the 2018 Regulations, and

(b) regulation 40 of, and insert a new Schedule 2A into, the 2018 Regulations to ensure students on continuing courses listed in that Schedule are entitled to the fee loan applicable to an ordinary provider.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Strategy and Funding Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2026 No. 108

EDUCATION, WALES

The Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*23 June 2026*
Coming into force	*31 July 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 22(1)(a) and (2)(c) and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**1**), and now exercisable by them(**2**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Student Support) (Wales) (Amendment) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 31 July 2026.

Application

2. These Regulations apply in relation to the provision of support to a student in relation to an academic year which begins on or after 1 August 2026.

Amendment of the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018

3. The Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018(**3**) are amended in accordance with regulations 4 to 6.

Amendment to regulation 8

4. After regulation 8(1) (designation of other courses) insert—

(**1**) 1998 c. 30; section 22(1) was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146(2)(a). See section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definition of "prescribed" and "regulations".

(**2**) The function of the Secretary of State in section 22(1)(a) of the Teaching and Higher Education Act 1998 was transferred to the National Assembly for Wales, so far as it relates to making provision in relation to Wales, by section 44 of the Higher Education Act 2004 (c. 8). Section 44(2) of the Higher Education Act 2004 provided that the function in section 22(2)(c) of the Teaching and Higher Education Act 1998 was to be exercised by the National Assembly for Wales concurrently with the Secretary of State, so far as it relates to making provision in relation to Wales. The Secretary of State's function in section 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998, in so far as being exercisable in relation to Wales, was transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, article 2 and Schedule 1 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) S.I. 2018/191 (W. 42), amended by S.I. 2025/981 (W. 173). There are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

"(1A) When specifying a course under paragraph (1), the Welsh Ministers may specify that the course is to be treated as being provided by an ordinary provider for the purposes of regulation 40(2)(c)(i)."

Amendments to regulation 40

5. In regulation 40 (amount of tuition fee loan)—

(a) in paragraph (2), at the beginning insert "Subject to paragraph (4),";

(b) for paragraph (2)(c)(i) substitute—

"(i) "ordinary provider" means a provider—

(aa) falling within Condition 4 of regulation 6(1),

(bb) specified in column 2 of Table 14A in Schedule 1A, in so far as they provide the course described in the corresponding entry in column 3, or

(cc) treated as such by virtue of a designation made by the Welsh Ministers under regulation 8;";

(c) in paragraph (2)(c)(ii), at the end insert ", where the institution is not treated as an ordinary provider within the meaning of paragraph (i) under the terms of that designation";

(d) after paragraph (3) insert—

"(4) The maximum loan amount to which a protected student is entitled is calculated as if their course were provided by an ordinary provider within the meaning of paragraph (2)(c)(i).

(5) In paragraph (4), "protected student" means a student undertaking a course that satisfies the requirements set out in Schedule 2A."

Insertion of new Schedule 2A

6. After Schedule 2 (categories of eligible student) insert—

"SCHEDULE 2A

Regulation 40(5)

Relevant courses for protected students

1. A course described in column 3 of Table 14B that—

(a) is provided by the course provider specified in the corresponding entry in column 2,

(b) leads to a qualification awarded by the body specified in the corresponding entry in column 1, and

(c) begins before 1 August 2026.

Table 14B

Column 1	*Column 2*	*Column 3*
Awarding body	*Course provider*	*Course description*
Anglia Ruskin University	ARU London	Finance and Accounting - BSc (Hons)
		Finance and Accounting with Foundation Year - BSc (Hons)
		Law - LLB (Hons)
Arts University Plymouth	Victoria College of Arts and Design	Business and Management for Creatives (Manchester) - CertHE
Bath Spa University	Circomedia	Contemporary Circus with Physical Theatre - BA (Hons)
	Elizabeth School of London Limited	Business and Management (Birmingham) - BA (Hons)
		Business and Management with Foundation Year (Manchester) - BA (Hons)
	The Brighton Academy	Musical Theatre - BA (Hons)
		Professional Dance - BA (Hons)
	William College	Business and Management (Law) with Foundation Year (Stratford) - BA (Hons)
BIMM University Limited	The Notting Hill Academy of Music Limited	Commercial Songwriting - CertHE
Birmingham Newman University	CECOS College London	Health and Social Care with Foundation Year (Birmingham) - BSc (Hons)
Buckinghamshire New University	Dancebox Studios & Theatre Works Limited	Professional Commercial Dance and Performance - BA (Hons)
	RHCast Limited	Musical Theatre - BA (Hons)
Canterbury Christ Church University	Elizabeth School of London Limited	Accounting and Finance with Foundation Year (Birmingham) - BSc (Hons)
		Accounting and Finance with Foundation Year (Manchester) - BSc (Hons)
		Business Management with Foundation Year (Birmingham) - BSc (Hons)

Column 1	*Column 2*	*Column 3*
Awarding body	*Course provider*	*Course description*
		Business Management with Foundation Year (Manchester) - BSc (Hons)
	London School of Commerce	Business Studies with Foundation Year (London) - CertHE
		Business Studies with Foundation Year (London) - BA (Hons)
	UK Management College	Business Management with Foundation Year - BSc (Hons)
De Montfort University	National Design Academy	Interior Design - BA (Hons)
	National Motorsport Academy	Motorsport Engineering - BSc (Hons)
	Performance Preparation Academy	Performance in Musical Theatre - BA (Hons)
		Performance in Musical Theatre with Foundation Year - BA (Hons)
Kingston University	Cardiff and Vale College	Aircraft Engineering - BEng (Hons)
Leeds Trinity University	LD Training Services Limited	Business Management with Foundation Year in Business (London) - BA (Hons)
Lincoln Bishop University	The Language Gallery	Business Management - CertHE
London Metropolitan University	QA Higher Education Birmingham	Business Management - BA (Hons)
		Business Management with Foundation Year - BA (Hons)
		Health and Social Care with Foundation Year - BSc (Hons)
	QA Higher Education London	Business Management - CertHE
		Business Management with Foundation Year - BA (Hons)

Column 1	*Column 2*	*Column 3*
Awarding body	*Course provider*	*Course description*
	QA Higher Education Manchester	Business Management - BA (Hons)
		Business Management with Foundation Year - BA (Hons)
		Health and Social Care with Foundation Year - BSc (Hons)
New College Durham	CECOS College London	Business and Management - FdA
Newcastle College Group	Elizabeth School of London Limited	Business Management - CertHE
		Computing - CertHE
Plymouth Marjon University	Bristol School of Acting	Acting and Devised Theatre - BA (Hons)
		Acting for Film, TV and New Media - BA (Hons)
		Acting for Screen - BA (Hons)
		Acting for Stage and Screen - BA (Hons)
		Technical Theatre Arts - BA (Hons)
	City Of London College (Bristol Campus)	Business with Foundation Year - BSc (Hons)
	Screenology	Creative Filmmaking - BA (Hons)
Southampton Solent University	QA Higher Education Birmingham	Computer Science - BSc (Hons)
		Computer Science with Foundation Year - BSc (Hons)
		Cyber Security with Foundation Year - BSc (Hons)
	QA Higher Education Manchester	Business Management with Foundation Year - BSc (Hons)
		Computer Science with Foundation Year - BSc (Hons)

Column 1	*Column 2*	*Column 3*
Awarding body	*Course provider*	*Course description*
		Cyber Security with Foundation Year - BSc (Hons)
University for the Creative Arts	London College of Contemporary Arts	Applied Business Management - FdA
		Business Management and Entrepreneurship - BA (Hons)
		Fashion - BA (Hons)
		Hospitality Management and Leadership - BA (Hons)
	London College of Contemporary Music	Commercial Music - CertHE
		Music Performance and Production - BMus (Hons)
University of Chichester	Italia Conti Arts Centre Limited	Acting (Musical Theatre) - BA (Hons)
University of East London	University Campus of Football Business Limited	Football Coaching and Management with Foundation Year (Manchester) - BA (Hons)
		Football Coaching and Talent Development (Wembley) - BA (Hons)
		International Football Business (Wembley) - BA (Hons)
		Sports Business and Coaching (Manchester) - BA (Hons)
		Sports Business and Coaching with Foundation Year (Manchester) - BA (Hons)
		Sports Business and Sports Law (Manchester) - BA (Hons)
University of Greater Manchester	UoB Manchester	Health and Social Care with Foundation Year - BSc (Hons)
University of Lancashire	Spirit Studios	Live Sound Engineering and Music Production - BSc (Hons)

Column 1	*Column 2*	*Column 3*
Awarding body	*Course provider*	*Course description*
University of Northampton	UONL	Psychology with Integrated Foundation Year - BSc (Hons)
University of Suffolk	London School of Commerce	Business Studies (Manchester) - CertHE
		Business Studies with Foundation Year (Manchester) - CertHE
		Business Studies with Foundation Year (Manchester) - BA (Hons)
University of West London	Cardiff and Vale College	Cyber Security - BSc (Hons)
		Esports and Creative Industries - FdA
		Healthcare Play Specialism - FdA
		Music Performance and Recording - DipHE
		Performance and Recording (Top Up) - BMus (Hons)
	Drama Studio London	Foundation in Performance - CertHE
	The Academy of Music & Sound	Music and Sound (Top Up) - BA (Hons)
University of Wolverhampton	City College Coventry	Digital Marketing Management with Foundation Year - BA (Hons)
	School of Coding	Business Management with Foundation Year (Birmingham) - BA (Hons)
		Computing and Information Technology with Foundation Year (Birmingham) - BSc (Hons)
	UK Management College	Health and Social Care with Foundation Year - BSc (Hons)”

Cefin Campbell
Deputy Minister for Skills and Tertiary Education, under authority of the Cabinet Minister for Education and the Welsh Language, one of the Welsh Ministers
23 June 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839879-3

9 780348 398793